



Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Dewi Sant, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 11 a 12 Rhagfyr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mawrth
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?.....	29
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hosbis Dewi Sant, Casnewydd, ar 11 a 12 Rhagfyr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, un adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Roedd amgylchedd yr hosbis gyfan yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch.

Gwelsom fod trefniadau rheoli ac arwain da ar waith yn yr hosbis.

Fodd bynnag, roedd peth tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cynnwys y claf a gofalwyr wrth gynllunio gofal
- Cymorth i deuluoedd
- Gwaith amlddisgyblaethol
- Amgylchedd croesawgar sydd mewn cyflwr da
- Archwilio clinigol

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar gadw cofnodion
- Diweddarau cynlluniau gofal yn amlach
- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â chynllunio ac asesu gofal, rheoli heintiau a rheoli risgiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gofal Hosbis Sefydliad Dewi Sant wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol yn Hosbis Dewi Sant, Blackett Avenue, Casnewydd. Cafodd yr hosbis ei chofrestru gyntaf ar 21 Mehefin 2017, ac mae'n darparu gofal i bobl dros 18 oed sy'n byw yn ardaloedd unedol Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De/Canolbarth Powys.

Mae gan yr hosbis 13 o welyau a gaiff eu rheoli gan feddyg ymgynghorol a dau wely seibiant a gaiff eu rheoli gan feddyg teulu.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys nyrsys cofrestredig, cynorthwywyr gofal iechyd, gweithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, fferylllydd a staff gweinyddol. Caiff y gwasanaethau meddygol eu darparu gan feddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth liniarol a meddygon gradd staff arbenigol a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Gofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol sydd â salwch cynyddol sy'n peryglu eu bywyd
- Cymorth i oedolion sydd wedi cael profedigaeth gan gynnwys cwnsela, gwaith grŵp, cymorth gan gymheiriaid a digwyddiadau coffa Light Up a Life¹.
- Cymorth profedigaeth Unicorn i blant a'u rhieni/gwarcheidwaid beth bynnag fo achos y brofedigaeth
- Gwybodaeth a chyngor 24/7 am ofal lliniarol a gofal diwedd oes i weithwyr proffesiynol, cleifion a theuluoedd

¹ Cyfres o ddigwyddiadau arbennig a gynhelir bob mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn y DU yw Light Up a Life. Caiff y digwyddiadau eu trefnu gan hosbisau er mwyn helpu teuluoedd a ffrindiau i ddod ynghyd i gofio a dathlu bywydau eu hanwyliaid.

- Rhaglenni hyfforddiant mewnol ac allanol yn lleol ac yn genedlaethol

Mae'r sefydliad hefyd yn rhedeg canolfan gofal dydd a gwasanaeth gofal cartref.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd amgylchedd yr hosbis gyfan yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC a siarad â'r cleifion a'u teuluoedd er mwyn cael gwybod eu barn am safon y gofal a gawsant yn y lleoliad. Derbyniwyd cyfanswm o bum holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd yr adborth a gafwyd drwy'r holiaduron a gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn; roedd pawb o'r farn bod y gofal, y cymorth a'r driniaeth a roddir yn yr hosbis yn rhagorol, ac yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt, ac yn darparu gofal pan oedd ei angen. Ymhlith y sylwadau yn yr holiaduron am y gofal a ddarperir yn yr hosbis, roedd y canlynol:

"Ar y cyfan, mae popeth yn rhagorol ac nid oes gennyf unrhyw gwynion. Hyd yn oed dros nos, mae'r staff sydd ar ddyletswydd yn rhoi gofal yn brydlon ac mewn ffordd drefnus"

"Gwasanaeth rhagorol, mae'r ystafelloedd ymolchi yn wych. Wedi symud ystafell weithiau ond mae pob ystafell yn cyrraedd yr un safon uchel"

"Mae'r gwasanaeth yn dda iawn ac rwy' wedi cael fy nhrin yn dda iawn ers i mi symud yma o Ysbyty Gwent"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd y staff hefyd yn cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai prif flaenoriaethau'r staff oedd gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr.

Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau fel yr argymhellwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol. Gwnaethom argymhell bod y staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelwch personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledu.

Cytunodd yr holl gleifion yn yr holiaduron fod y lleoliad yn lân ac yn daclus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r staff lofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Urddas a pharch

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwranddo arnynt. Cadarnhaodd yr ymatebion a gawsom i'r holiaduron hefyd fod y staff wedi siarad â'r cleifion am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Gwasanaeth ardderchog ar adeg pan oedd ei angen arnaf yn fawr"

"Rydyn ni'n teimlo bod y gwasanaeth, y gofal a'r cymorth a gawsom ni yn ardderchog a does dim cwynion gennym."

Mae'r ystafell a'r ward bob amser yn lân, mae'r staff yn garedig ac yn gwrtais"

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Roedd y cleifion hynny a oedd angen help i fynd i'r toiled yn cytuno bod y staff yn helpu gyda'r anghenion hynny mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo embaras neu gywilydd.

Ymddengys bod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i ymddangosiad a dillad y bobl. Gwelsom fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd, lle bo hynny'n briodol, er mwyn cynnal eu hurddas a hyrwyddo'u hannibyniaeth.

Roedd yr amgylchedd wedi'i ddylunio mewn modd ystyrlon; roedd yr ystafelloedd yn fawr, ac roedd safon y dodrefn a'r gwaith addurno yn dda iawn. Gallai'r cleifion a'r perthnasau ddefnyddio'r ardaloedd eistedd/bwyta cymunedol, capel anenwadol ac roedd yna hefyd ardaloedd eistedd/lolfa llai i bobl yr oedd yn well ganddynt amgylchedd mwy preifat. Gallai perthnasau aros dros nos yn ystafell y claf. Roedd ardaloedd eistedd awyr agored braf ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr eu defnyddio.

Roedd cyfleusterau cawod en-suite yn ystafelloedd y cleifion i gyd. Roedd yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fawr ac yn cynnwys cyfarpar da.

Rhodddwyd y cyfle i gleifion gymryd rhan mewn gwaith a therapi grŵp neu unigol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd gwybodaeth a llyfrynau yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r hosbis. Roedd y Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Gleifion a'r pecyn croeso, a oedd ym mhob ystafell wely, yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am

y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau'r hosbis a'r staff. Roedd hyn yn cynnwys sut i godi pryder neu wneud cwyn.

Roedd Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion (PSAG)² wedi'i leoli yn yr ystafell gyfarfod amlddisgyblaethol. Roedd y bwrdd wedi'i ddylunio mewn ffordd a oedd yn galluogi i enwau'r cleifion gael eu gorchuddio pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â chleifion a'u perthnasau mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion yn yr holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Gwnaethom argymhell y dylid ystyried ffyrdd o gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cleifion sydd â nam gwybyddol drwy ddefnyddio byrddau lluniau ac arwyddion priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Ystyried ffyrdd o gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cleifion sydd â nam gwybyddol drwy ddefnyddio byrddau lluniau ac arwyddion priodol.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ar y cyfan. Roedd fformat y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu a'u diweddarau bob wythnos. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau rhai cynlluniau gofal yn amlach er mwyn adlewyrchu newid yn

² Mae bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

anghenion gofal y cleifion. Er hynny, roedd y gwerthusiadau ysgrifenedig a gaiff eu cwblhau gan y staff gofalu ar ddiwedd pob sifft yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra'n benodol i'r cleifion yn unol â'u hanghenion a aseswyd. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion.

Ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn derbyn gofal seibiant, gwelsom fod systemau cynllunio rhyddhau digonol ar waith, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis.

Mae'r tîm yn gweithio gan ymgynghori â gweithwyr gofal iechyd a gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Felly, gall y staff gael cymorth a chynghor arbenigol yn ôl yr angen, er enghraifft, gan ddeietegwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i gynlluniau gofal gael eu hadolygu a'u diweddarau bob tro mae anghenion gofal claf yn newid.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, caewyd drysau'r ystafelloedd gwely wrth roi gofal.

Gwelsom fod asesiad o Alluedd Meddyliol ac asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid³ yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Gwnaethom drafod yr angen i'r staff sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid pan fo cleifion yn cael gofal neu'n cael eu monitro un i un.

Gwelsom fod ffurflenni Peidiwch â Dadebru (DNAR) yn cael eu llenwi drwy ymgynghori â'r claf neu ei gynrychiolydd teulu enwebedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid pan fo cleifion yn cael gofal neu'n cael eu monitro un i un.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, ynghyd â phosteri mewn mannau amlwg ar hyd a lled yr hosbis, yn cyfeirio at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Roedd blwch a chardiau awgrymiadau wedi'u lleoli wrth y fynedfa i un rhan o'r adeilad. Mae'r hosbis hefyd wedi'i chofrestru â'r system ar-lein "iWantGreatCare"⁴, lle gellir gadael sylwadau yn ddiennw. Mae'r hosbis yn cael dadansoddiad misol ac wrth adolygu'r dadansoddiad diweddaraf, gwelsom fod yr holl sylwadau yn rhai cadarnhaol.

³ Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

⁴ Sefydliad adolygu gofal iechyd annibynnol yw iWantGreatCare, a ddefnyddir yn unol â Gwasanaeth Gofal Lliniarol Cymru Gyfan, lle gellir rhoi adborth ar wasanaethau gofal iechyd mewn modd cyfrinachol. Gellir gweld yr adborth ar-lein drwy <https://www.iwantgreatcare.org/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg o friwiau pwysau yn cael eu cynnal wrth i gleifion gael eu derbyn i'r hosbis, a'u hadolygu yn rheolaidd.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch, gweithio ar alwad a chynllunio at argyfwng boddhaol ar waith. Roedd ymwelwyr yn cael eu hysbysu bod system CCTV ar waith (mewn manau penodol fel y fynedfa a'r coridorau).

Roedd y system larwm tân yn cael ei phrofi bob wythnos ac roedd y cyfarpar ymladd tân yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Roedd dyfeisiau trydanol cludadwy wedi'u profi yn ôl y gofyn.

Gwelsom fod rhai hylifau glanhau yn cael eu storio ar y llawr yn y storfa ar y llawr daear gwaelod. Gallai hyn beri anaf i'r staff wrth iddynt godi rhai o'r cynwysyddion mwyaf a pheri risg i unrhyw blant ifanc a allai fynd i mewn i'r

storfa yn ddamweiniol. O ganlyniad, awgrymwyd y dylid storio'r cynwysyddion oddi ar y llawr mewn man sydd allan o gyrraedd plant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu'r trefniadau ar gyfer storio hylifau glanhau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pawb a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y lleoliad yn lân ac yn daclus. Dywedodd un claf wrthym:

"Mae'n teimlo fel gwesty am ei fod mor foethus a glân"

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Roedd canlyniadau'r archwiliadau hynny yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd yn yr hosbis er mwyn i'r cleifion ac ymwelwyr eu gweld. Gwnaethom argymhell y dylid ystyried arddangos cyfraddau *Clostridium difficile*⁵ hefyd.

Gwnaethom awgrymu y dylid glanhau cyffiau'r cyfarpar pwysedd gwaed rhwng cleifion er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod manau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

⁵ Bacteria yw *Clostridium difficile*, a elwir hefyd yn *C. difficile* neu *C. diff*, sy'n gallu heintio'r coluddyn ac achosi dolur rhydd. Fel arfer, mae'r haint yn effeithio ar bobl sydd wedi cael eu trin â gwrthfotigau yn ddiweddar.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried arddangos cyfraddau *Clostridium difficile*.

Dylid glanhau cyffiau'r cyfarpar pwysedd gwaed rhwng cleifion er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Maeth

Wrth edrych ar sampl o ffeiliau gofal y cleifion, gwelsom nad oedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu fel mater o drefn ar adeg eu derbyn i'r hosbis. Roedd yr asesiadau hyn yn cael eu cwblhau gan y staff meddygol fel rhan o'r llwybr gofal diwedd oes.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol at eu hanghenion.

Gwelsom y prydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, bwylllog ac urddasol gan roi digon o amser iddynt gnoi a llyncu eu bwyd. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r staff cymorth gofal iechyd gael hyfforddiant penodol ar helpu cleifion i fwyta.

Lle bo'n briodol, anogwyd perthnasau i ymweld adeg prydau bwyd er mwyn helpu a chefnogi'r cleifion i fwyta. Anogwyd y perthnasau i fod yn rhan o agweddau eraill ar ofal y cleifion hefyd.

Caiff yr holl brydau eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent yn edrych yn dda ac yn flasus iawn. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Dywedodd pob claf a lenwodd yr holiadur ei fod yn cael digon o amser i fwyta'i fwyd ar ei gyflymder ei hunan a bod dŵr ar gael bob amser.

Roedd system effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion cleifion unigol, gyda'r staff gofalu a'r staff arlwygo yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

Roedd cyfleusterau te a choffi yn un o'r llofeydd er mwyn i'r cleifion ac ymwelwyr baratoi diodydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai anghenion bwyta ac yfed y cleifion gael eu hasesu fel mater o drefn ar adeg eu derbyn i'r hosbis.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith er mwyn helpu'r staff i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Cawsom wybod bod rhai o'r polisïau wrthi'n cael eu hadolygu ar adeg yr arolygiad.

Cawsai'r cleifion eu hasesu i nodi faint o gymorth, os o gwbl, oedd ei angen arnynt er mwyn rheoli eu meddyginiaeth. Roedd cwpwrdd â chlo arno yn ystafell pob claf er mwyn iddo storio ei feddyginiaeth ei hun. Roedd meddyginiaethau eraill yn cael eu storio'n briodol o fewn system rhoi meddyginiaeth electronig yn yr ystafell driniaeth. Dim ond staff awdurdodedig allai fynd i mewn i'r ystafell hon. Roedd y system hon wedi'i chysylltu â'r fferyllfa yn ysbyty Neville Hall ac yn cael ei monitro gan staff y fferyllfa a oedd yn gyfrifol am ailgyflenwi.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff a oedd â chyfrifoldebau am feddyginiaeth yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys o ran arferion meddyginiaeth diogel. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n drylwyr.

Daw fferylllydd i'r hosbis bob wythnos i archwilio'r feddyginiaeth a rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth i'r staff.

Roedd offer i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewygu) ar gael ac roeddent yn cael eu gwirio bob wythnos. Roedd y cyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael eu storio mewn blwch wedi'i selio. Roedd y blwch yn cael ei wirio bob wythnos i sicrhau nad oedd y sêl wedi torri a bod dyddiadau'r cynnwys yn gywir. Gan fod y blwch cyffuriau brys wedi'i selio, gwnaethom argymhell y dylid cadw rhestr o'r eitemau sydd ynddo y tu allan i'r blwch er hwylustod.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol diweddar ym maes dadebru/cynnal bywyd. Gwnaethom argymhell y dylai'r staff nyrsio cymwysedig gael hyfforddiant canolraddol ym maes cynnal bywyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cadw rhestr o'r eitemau sydd yn y blwch cyffuriau brys y tu allan i'r blwch er hwylustod.

Dylai'r staff nyrsio cymwysedig gael hyfforddiant canolraddol ym maes cynnal bywyd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Gwnaethom awgrymu y dylid sicrhau bod gwybodaeth am gam-drin domestig ar gael i'r staff. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth fel rhifau cyswllt i'w defnyddio i roi gwybod am ddigwyddiadau a chael cymorth a chynghor.

Rheoli gwaed

Gwelsom fod polisi trallwysu gwaed ffurfiol ar waith.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud â'r broses drallwysu wedi cael hyfforddiant ac roeddent yn cael eu hasesu'n rheolaidd i gadarnhau eu bod yn gymwys.

Roedd gwaed i'w drallwysu yn cael ei gasglu o'r ysbyty lleol yn ôl yr angen, gyda gwiriadau priodol yn cael eu cynnal a chofnodion yn cael eu cadw.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd gan yr hosbis amrywiaeth o offer meddygol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom fod bwndeli gofal, sy'n gysylltiedig â'r system genedlaethol Sgoriau Rhybudd Cynnar (NEWS)⁶, yn cael eu defnyddio fel ffordd strwythuredig o wella prosesau gofal a chanlyniadau cleifion o ran atal briwiau pwyso, sicrhau maeth digonol a nodi cleifion sy'n wynebu risg o waethygu drwy salwch aciwt. Fodd bynnag, nid oedd bwndeli gofal yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i nodi cleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu sepsis⁷ a gwella'r gofal a roddir iddynt.

Gwelsom fod asesiadau o boen yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi. Roedd unrhyw gyffuriau lleddfu poen a roddir yn cael eu cofnodi'n briodol ar siartiau rhoi meddyginiaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cyflwyno bwndel gofal sepsis.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chadw cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny yn electronig ac ar bapur.

⁶ System genedlaethol i nodi cleifion sâl iawn sy'n gwaethygu ac sydd angen gofal meddygol neu ofal nyrsio mwy dwys yw NEWS.

⁷ Cyflwr peryglus iawn yw sepsis sy'n digwydd pan fo adwaith y corff i haint yn peri anaf i feinwe ac organau'r corff.

Gwnaethom awgrymu y dylid archwilio'r ffeiliau gofal er mwyn lleihau nifer y dogfennau a gedwir ynddynt, a allai arwain at ddyblygu llai o wybodaeth hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Archwilio'r ffeiliau gofal er mwyn lleihau nifer y dogfennau a gedwir ynddynt, a allai arwain at ddyblygu llai o wybodaeth hefyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr hosbis, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi llywodraethu ac atebolrwydd yn yr hosbis.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod pwyslais ar wella gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff a chanfod eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol (y Prif Swyddog Gweithredol) yn gweithio yn y bloc gweinyddol gerllaw'r hosbis. Mae hyn yn ei galluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn golygu ei bod ar gael i'r staff, y cleifion a'r perthnasau. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol mewn sefyllfa dda i lunio'r adroddiadau

sy'n ofynnol o dan Reoliad 28. Mae Aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â'r staff a dosbarthu holiaduron AGIC iddynt er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, sut mae'r sefydliad yn ymdrin â chwynion a digwyddiadau ac i gael eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir yn Hosbis Dewi Sant. Derbyniwyd cyfanswm o 10 holiadur wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn y lleoliad.

Roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr hosbis. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion ac ar gael ar ffurf taflenni. Roedd gwybodaeth hefyd i'w gweld ar hysbysfyrdau mewn mannau gwahanol ar hyd a lled yr hosbis.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am yr hosbis yn isel iawn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad bob amser yn annog gwaith tîm ac o'r farn mai gofalu am y cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion.

Roedd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu o fewn eu cyfarwyddiaeth neu adran, a dywedodd dros hanner y staff eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Roedd y staff yn cytuno hefyd fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym yn yr holiaduron nad oeddent wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd na digwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio'r staff neu'r cleifion.

Roedd yr aelodau o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac yn cytuno, ar ôl cael gwybod amdanynt, y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. Gwnaeth rhai aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

"Mae ffurflenni digwyddiadau yn cael eu cwblhau"

"Rydyn ni bob amser yn cael ein hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau am fod hynny'n lleihau risg"

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff hefyd eu bod yn teimlo bod y sefydliad yn ymdrin ag unrhyw gamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn gyfrinachol, a dywedodd pob un o'r staff eu bod yn cael adborth am newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a gofnodir.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob un heblaw un o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo nad yw eu sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Dywedodd pob un o'r aelodau staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd pob un o'r staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Nododd y mwyafrif o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd ag ystod eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelwch tân, rheoli heintiau a phreifatrwydd ac urddas wrth ofalu am bobl hŷn.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth gwell i gleifion.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y rhan benodol hon o'r holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y mwyafrif o'r staff fod eu rheolwr wedi eu cefnogi i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi, dysgu neu ddatblygu a nodwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Dywedodd un aelod o'r staff:

"Galla' i gael unrhyw hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'm swydd"

Gwelsom fod y staff yn yr hosbis yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol.

Mae'r hosbis yn cyflogi rheolwr addysg sy'n gyfrifol am ddatblygu'r staff. Dywedodd y rheolwr addysg wrthym ei fod yn ymdrechu i sicrhau y gall y staff fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd gymwys, a'i fod yn gweithio tuag at sefyllfa lle roedd y staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn pynciau gorfodol megis diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron sgorio pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'u sefydliad yn berthnasol yn eu profiad nhw. Teimlai'r mwyafrif helaeth o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymddrin â'r cleifion bob amser yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Roedd y staff a gwblhaodd y gyfres hon o gwestiynau yn yr holiadur hefyd yn cytuno bod gan y sefydliad y wybodaeth gywir er mwyn monitro ansawdd y gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol bob amser a gweithredu'n gyflym lle bo diffygion, a bod diwylliant o fod yn agored a dysgu o fewn y sefydliad, sy'n cefnogi'r staff i nodi problemau a'u datrys.

Yn yr holiaduron, rhoddwyd nifer o ddatganiadau i'r staff yn ymwneud â gofal cleifion a gofynnwyd iddynt pa mor aml roeddent yn berthnasol yn eu profiad nhw. Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod preifatrwydd ac urddas y cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn Hosbis Dewi Sant, fod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hyrwyddo a bod y cleifion a/neu eu perthnasau bob amser yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd pob un o'r staff wrthym hefyd eu bod bob amser yn fodlon ar ansawdd y gofal maent yn ei roi i'r cleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu bodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, a bod digon o staff ar gael bob amser yn y sefydliad i wneud eu gwaith yn iawn.

Roedd y staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith, a gwnaethant ddweud eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm neu eu hadran. Roedd hanner yr aelodau staff yn teimlo eu bod bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyflwyno newidiadau a oedd yn effeithio ar eu maes gwaith, eu tîm neu eu hadran.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno, pe byddai ffrind neu berthynas angen triniaeth, y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y

sefydliad, ac yn cytuno hefyd y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ynddo. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Byddwn i'n hapus iawn i unrhyw ffrind neu berthynas gael triniaeth/aros yn yr uned"

"Roedd gen i berthnasau'n byw mewn ardaloedd eraill oedd heb gael gofal o'r un safon neu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y sefydliad hwn a byddai'n dda gen i pe bydden nhw wedi cael gwasanaeth mor dda"

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar aelod o'r staff a chanfod bod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

Cawsom gopïau o'r pecynnau sefydlu ar gyfer staff newydd. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn am yr hosbis, strwythur y sefydliad, cyfrifoldebau'r staff a'r polisiâu a'r gweithdrefnau. Roeddent hefyd yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer y broses sefydlu, a oedd yn cael ei llofnodi gan yr aelod newydd o'r staff a'i reolwr yn ystod y cyfnod sefydlu.

Holwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Roedd y staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog eu staff i weithio fel tîm, ac yn dweud y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwr yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, a'i fod yn gofyn am eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud a fyddai'n effeithio ar eu gwaith. Cytunodd y rhan fwyaf o'r staff hefyd fod eu rheolwr bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Gwnaeth rhai aelodau o'r staff y sylwadau canlynol am eu rheolwr yn yr holiaduron:

"Mae fy rheolwr llinell yn berson hawdd iawn mynd ato ac mae bob amser ar gael i helpu i ofalu am y cleifion. Mae hefyd yn dangos pryder gwirioneddol pan fo angen cymorth ar y staff ar lefel bersonol"

"Hawdd iawn mynd ato, yn arwain drwy esiimpl, yn deg, ac yn fodel rôl cadarnhaol i'r uned. Dibynadwy a bob amser yn helpu gyda phob tasg. Sgiliau cyfathrebu gwych bob amser"

Holwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiaduron am eu huwch reolwyr. Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd yr adran hon o'r holiadur eu bod bob amser yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y sefydliad, ac yn teimlo bod yr uwch reolwyr bob amser yn ymrwymedig i ofal y cleifion.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch reolwyr a'r staff bob amser, a bod yr uwch reolwyr fel arfer yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, ac yn gweithredu ar adborth gan staff. Dywedodd un aelod o'r staff:

"Maen nhw i gyd yn gefnogol iawn bob amser"

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015.

Holwyd y staff yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y swydd, ar y cyfan, yn llesol i'w hiechyd; roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno â'r datganiad. Roedd cyfran debyg o'r staff hefyd yn dweud bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a lles. Ymhlith y sylwadau gan y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

"Cefnogol iawn ac yn cyfeirio achosion at sefydliadau perthnasol, er enghraifft, iechyd galwedigaethol"

"Mae fy rheolwr llinell yn poeni'n wirioneddol am iechyd a llesiant ei thîm ar adegau anodd"

Roedd y staff a gwblhaodd yr holiadur hefyd yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu oedran.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Dewi Sant, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 11 a 12 Rhagfyr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r staff lofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Bydd yn rhaid i'r staff ddarllen a llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau o fewn cyfnod penodol er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.	Karen Hughes	2/12
Ystyried ffyrdd o gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r cleifion sydd â nam gwybyddol drwy ddefnyddio byrddau lluniau ac arwyddion priodol.	Rheoliad 18. (1) (b) 18. Cyfathrebu'n effeithiol	Byrddau lluniau ac arwyddion ar gael yn yr uned.	Karen Hughes	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i gynlluniau gofal gael eu hadolygu a'u diweddarau bob tro mae anghenion gofal claf yn newid.	Rheoliad 15. (1) (a) 8. Cynllunio a darparu gofal	Caiff archwiliad arall ei gynnal o'r nodiadau a chaiff cynlluniau gofal eu gwerthuso pan fydd cyflwr claf yn newid. Rhaeadru'r wybodaeth i'r staff yn ystod cyfarfod y ward.	Stephanie Thomas	Cwblhawyd
Rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid pan fo cleifion yn cael gofal neu'n cael eu monitro un i un.	Rheoliad 17. (1) a (2) 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Mae'r staff yn gwybod bod yn rhaid ystyried cynnal asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.	Karen Hughes	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Adolygu'r trefniadau ar gyfer storio hylifau glanhau.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Ni chaiff hylifau glanhau eu storio ar silffoedd isel mwyach. Caiff cloeon eu gosod ar y cypyrddau sy'n storio hylifau glanhau.	Karen Hughes	1/12
Dylid ystyried arddangos cyfraddau Clostridium	Rheoliad (7)	Caiff cyfraddau Clostridium difficile eu harddangos ar yr hysbysfwrdd erbyn	Karen Hughes	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
difficile.	ac (8)	hyn.		
Dylid glanhau cyffiau'r cyfarpar pwysedd gwaed rhwng cleifion er mwyn lleihau'r risg o groesheintio.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae pecynnau bach o glytiau glanhau ac arwydd wedi'i lamineiddio yn cael eu cadw ar standiau arsylwi erbyn hyn ac mae'r staff yn gwybod bod angen glanhau'r cyffiau ar ôl eu defnyddio.	Stephanie Thomas	Cwblhawyd
Dylai anghenion bwyta ac yfed y cleifion gael eu hasesu fel mater o drefn ar adeg eu derbyn i'r hosbis.	Rheoliad 8. (9) (a) 14. Maeth	Mae Hosbis Dewi Sant yn trafod y mater â Deietegydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; mae deunyddiau darllen ar asesiadau maeth ar gael i'r staff.	Stephanie Thomas	Cwblhawyd
Dylid cadw rhestr o'r eitemau sydd yn y blwch cyffuriau brys y tu allan i'r blwch er hwylustod.	Rheoliad 5. (a) 15. Rheoli meddyginiaethau	Mae cynnwys y blwch cyffuriau brys wedi'i restru y tu allan i'r blwch.	Stephanie Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r staff nyrsio cymwysedig gael hyfforddiant canolraddol ym maes cynnal bywyd.		Mae hyn yn cael ei ystyried a chaiff ei drafod ag arweinydd gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r hosbis. Caiff gwaith meincnodi ei wneud yn erbyn hosbisau eraill.	Karen Hughes	Angen gwneud penderfyniad o fewn 2/12
Cyflwyno bwndel gofal sepsis.	Rheoliad 7. (a) a Rheoliad 8.	Mae hyn yn cael ei ystyried a chaiff ei drafod ag arweinydd gofal lliniarol	Karen Hughes	Angen gwneud

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(b) 7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r hosbis. Caiff gwaith meincnodi ei wneud yn erbyn hosbisau eraill.		penderfyniad o fewn 2/12
Archwilio'r ffeiliau gofal er mwyn lleihau nifer y dogfennau a gedwir ynddynt, a allai arwain at ddyblygu llai o wybodaeth hefyd.	20. Rheoli cofnodion	Rydym wedi archwilio'r nodiadau ac rydym yn teimlo bod yr holl ddogfennau presennol yn berthnasol ac nad ydynt yn dyblygu gwybodaeth.	Stephanie Thomas	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dim angen gwelliant.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Karen Hughes

Swydd: Uwch Reolwr Llywodraethu a Pherfformiad

Dyddiad: 5 Mawrth 2019